PENRHYN-COCH

Sŵn y Nadolig sy'n yr ysgol erbyn hyn a pharatoi ar gyfer y gwasanaeth o Naw Gwers a Charol a gymer le'n yr eglwys. Y mae edrych ymlaen wrth gwrs i Ginio Nadolig yr ysgol a'r parti a drefnir gan yr Urdd. Cyfarfu'r Urdd bob wythnos yn ystod y tymor a bu rhai o'r plant yn cynrychioli'r Adran mewn cystadleuaeth i ysgolion y cylch yn ysgol Commins Coch yn ddiweddar. Bu pedwar o'r ysgol mewn cwis a drefnwyd gan Lyfrgell y Sir a gwnaethant waith canmoladwy iawn. Bu Taith Gerdded yr Urdd yn dra llwyddiannus. Teithiodd rhyw hanner cant ohonom a bu'r ardalwyr a chyfeillion eraill yn hynod garedig wrthym a mawr yw ein diolch iddynt. Aeth nifer o'r plant i gartref Mrs E.A.Rowlands, Fodwen ar ddydd ei phenblwydd yn gant oed i ddymuno'n dda iddi ac i'w chyfarch ar gân. Cyflwynodd Mrs Rowlands Feibl i'r ysgol i gofio'r achlysur hapus yma.

Bu'r tîm pêl-droed yn ffodus i ennill cwpan yn y cystadleuthau chwech bob ochr i ysgolion o dan 75 o blant a gynhaliwyd ar Faes Chwarae Aberystwyth. Cafodd Michael Hutchinson ei ddewis hefyd i chwarae yn nhîm y Mini Minor a chafodd gêm ym Mae Colwyn beth amser yn ôl. Llongyfarchiadau iddo ef a'r tîm.

Dymunwn yn dda i holl drigolion y fro. Gobeithio bydd y Nadolig yn un hapus i bawb a'r Flwyddyn Newydd yn un llawn dedwyddwch.